

Taflen Cofnodi Sgrinio Asesu'r Effaith ar Iechyd

Cwblhawyd gan:

Paul Moyle

1. Teitl y rhaglen, y polisi neu'r prosiect:

Darparu cynllun effeithlonrwydd ynni a thlodi tanwydd Cymru gyfan a arweinir gan alw i olynu *Nyth Cartrefi Clyd*.

2. Disgrifiad (yn cynnwys y prif nodau ac amcanion):

Mae gan Lywodraeth Cymru rwymedigaeth statudol i ddileu tlodi tanwydd, i'r graddau sy'n rhesymol ymarferol, ar bob aelwyd yng Nghymru erbyn 2018. Mae gennym bwerau cyfyngedig i fynd i'r afael ag incwm isel a phrisiau ynni, sy'n golygu bod dileu tlodi tanwydd yn her wirioneddol, ond gallwn wneud gwahaniaeth sylweddol trwy wella effeithlonrwydd ynni cartrefi yng Nghymru.

Mae gan Gymru rai o'r stoc adeiladu hynaf a lleiaf effeithlon o ran ynni yn Ewrop. Mae'r ffaith fod cynifer o adeiladau hŷn yng Nghymru wedi gadael gwaddol sylweddol o nodweddion aneffeithlon o ran ynni. Felly, mae angen mwy o ynni i gadw ein cartrefi yn gynnes o'i gymharu ag ardaloedd eraill o Ewrop, sy'n arwain at filiau ynni uwch. Gwellu effeithlonrwydd ynni cartrefi yw'r ffordd fwyaf cynaliadwy o leihau biliau ynni yn yr hirdymor, gan sicrhau bod aelwydydd yn gallu cadw'n gynnes am gost fwy fforddiadwy.

Mae'r Strategaeth Tlodi Tanwydd yn nodi ein camau gweithredu arfaethedig i leihau nifer yr aelwydydd yng Nghymru sy'n byw mewn tlodi tanwydd. Mae'r camau allweddol yn cynnwys:

- Darparu cynllun tlodi tanwydd Cymru gyfan a arweinir gan alw ar gyfer aelwydydd sydd â'r angen mwyaf ac sy'n byw mewn cartrefi mwyaf aneffeithlon o ran ynni, wedi'i ategu gan fuddsoddiad mewn ardaloedd penodol.
- Darparu gwasanaethau cyngor a chymorth wedi'u cydgysylltu'n dda i sicrhau bod pob deiliad tŷ yng Nghymru yn gallu cael gafael ar gymorth i leihau ei filiau tanwydd, manteisio'n llawn ar ei incwm, gwella perfformiad ynni ei gartref a lleihau'r risg o wynebu tlodi tanwydd.

Rydym wrthi'n gwneud hyn yn effeithiol ar hyn o bryd trwy ein rhaglen effeithlonrwydd ynni a thlodi tanwydd, *Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru*, sy'n cynnwys cynllun *Nyth* a arweinir gan alw, a chynllun *Arbed* sy'n seiliedig ar ardaloedd penodol.

Gan fod contract y cynllun *Nyth* presennol yn dod i ben ym mis Mawrth 2018, rydym yn cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn ymwneud â chynllun effeithlonrwydd ynni a thlodi tanwydd a arweinir gan alw i olynu *Nyth* ym mis Ebrill 2018. Nod y cynllun yw sicrhau bod aelwydydd yng Nghymru yn gallu

cyrchu ystod o gyngor a chymorth diduedd a di-dâl i'w helpu i leihau eu biliau ynni a chadw'n gynnes am gost fwy fforddiadwy.

Mae'r cymorth hwn yn cynnwys atgyfeiriad ar gyfer pecyn o welliannau ynni cartref ar gyfer rhai aelwydydd incwm isel, agored i niwed ac aneffeithlon o ran ynni, yn amodol ar feini prawf cymhwysedd.

Defnyddiwyd tystiolaeth o nifer o adroddiadau ymchwil gymdeithasol¹, ynghyd â gwersi a ddysgwyd o'r cynllun presennol, i ddatblygu cynigion ar gyfer y cynllun newydd, gan gynnwys meini prawf cymhwysedd diwygiedig i wella'r broses dargedu, a darparu cyngor i aelwydydd cymwys yn eu cartrefi eu hunain. Rhoddir blaenoriaeth i gefnogi aelwydydd sydd â'r angen mwyaf (h.y. aelwydydd incwm isel, agored i niwed ac aneffeithlon o ran ynni).

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y cynigion drafft rhwng 27 Gorffennaf 2016 ac 19 Hydref 2016. Cyhoeddwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad ar 23 Rhagfyr 2016.

Nodau ac amcanion y cynllun newydd

Bydd y cynllun newydd yn adeiladu ar gynllun presennol *Nyth Cartrefi Clyd*, a dyma'r amcanion allweddol:

- lleihau effaith tlodi tanwydd ar aelwydydd yng Nghymru ac, i'r graddau sy'n rhesymol ymarferol, dileu tlodi tanwydd;
- greu swyddi a chyfleoedd busnes gwyrdd ar gyfer pobl Cymru; a
- lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr yn y sector domestig.

Yn unol â Strategaeth Tlodi Tanwydd 2010, rhoddir blaenoriaeth i gefnogi aelwydydd sydd â'r angen mwyaf ac yn byw mewn cartrefi mwyaf aneffeithlon o ran ynni.

3. Natur y Dystiolaeth i'w hystyried/i'w defnyddio (yn cynnwys data llinell sylfaen, ymchwil technegol ac ansoddol, gwybodaeth arbenigol a chymunedol):

Mae ein cynigion yn ymwneud â chyflwyno a dylunio'r cynllun newydd wedi ystyried tystiolaeth amrywiol, sy'n cael ei chrynhoi isod.

[Amcangyfrifon o Lefelau Tlodi Tanwydd 2012-2016, Sefydliad Ymchwil Adeiladu](#)

Mae ystadegau tlodi tanwydd diweddaraf Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar amcangyfrifon enghreifftiol ar gyfer 2012 – 2016 a luniwyd gan y Sefydliad Ymchwil Adeiladu. Cyhoeddwyd adroddiad y Sefydliad Ymchwil Adeiladu, "*Cynhyrchu Amcangyfrifon o Lefelau Tlodi Tanwydd yng Nghymru: 2012-2016*" ar 11 Gorffennaf 2016. Mae'r adroddiad yn amcangyfrif lefelau tlodi tanwydd a thlodi tanwydd difrifol ar bob aelwyd, tlodi tanwydd ar aelwydydd

¹ <https://gov.wales/statistics-and-research/understanding-characteristics-low-income-households-risk-living-cold-homes/?skip=1&lang=cy>

agored i niwed a thlodi tanwydd mewn tai cymdeithasol rhwng 2012 a 2016. Hefyd, mae'n amcangyfrif effaith gwelliannau effeithlonrwydd ynni ar lefelau tlodi tanwydd.

Mae'r canfyddiadau wedi'u hystyried wrth benderfynu a ddylai Llywodraeth Cymru barhau i gynnig cynllun tlodi tanwydd a arweinir gan alw. Er bod y gwaith ymchwil yn dangos bod yr amcangyfrif o nifer yr aelwydydd sy'n wynebu tlodi tanwydd wedi lleihau ers 2012, amcangyfrifir bod tua 23 y cant o'r holl aelwydydd a 24 y cant o aelwydydd agored i niwed² yng Nghymru yn wynebu tlodi tanwydd yn 2016. Mae hyn yn cefnogi'r achos dros barhau i weithredu ym maes tlodi tanwydd, gan roi blaenoriaeth i helpu cartrefi incwm isel sy'n wynebu'r perygl mwyaf o fyw mewn cartrefi oer.

Hefyd, mae gwaith ymchwil y Sefydliad Ymchwil Adeiladu yn amlygu effaith gadarnhaol gwelliannau effeithlonrwydd ynni yn y cartref ar lefelau tlodi tanwydd. Mae hyn yn dangos bod cynllun Cymru gyfan sy'n cefnogi cartrefi incwm isel trwy ddarpariaeth o'r fath, ochr yn ochr â phe cyn cynhwysfawr o gyngor a chymorth arall, yn parhau i fod yn ffordd hynod effeithiol o leihau lefelau tlodi tanwydd.

Gwneud Gwahaniaeth: Buddsoddi mewn Iechyd a Llesiant Cynaliadwy i Bobl Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru

Mae'r adroddiad hwn yn cynnig tystiolaeth, ymchwil a barn arbenigol mewn perthynas ag atal afiechyd a lleihau anghydraddoldebau er mwyn cyflawni economi gynaliadwy, cymdeithas ffyniannus a'r lefelau iechyd a llesiant gorau posibl i'r genhedlaeth hon ac i genedlaethau'r dyfodol yng Nghymru.

Mae'r adroddiad yn dadlau y byddai buddsoddi mewn atal iechyd gwael yn arwain at ganlyniadau iach ar gyfer y boblogaeth a manteision pellgyrhaeddol ar bob agwedd ar gymdeithas a bywydau pobl. Mae'n cynnwys nifer o ganfyddiadau a datganiadau pwysig yn ymwneud ag inswleiddio, effeithlonrwydd ynni, gwresogi ac amodau tai:

- Gallai buddsoddi mewn dulliau inswleiddio a gwresogi er mwyn ymdrin â thai oer a llaith sicrhau arbedion o bron i £35 miliwn i'r GIG yng Nghymru;
- Mae babanod sy'n byw mewn cartrefi lle ceir tlodi tanwydd (oer a llaith) yn fwy tebygol (o 30%) o gael eu derbyn i'r ysbyty neu wasanaethau gofal sylfaenol;
- Mae ansawdd tai gwael, gan gynnwys materion megis llwydni, gwres gwael ac effeithlonrwydd ynni gwael, yn gysylltiedig ag afiechyd corfforol ac afiechyd meddwl. Mae'n effeithio ar yr unigolyn, yn ogystal â chostau i'r unigolyn, i gymdeithas ac i'r GIG o ran y lefelau uwch o droseddu, diweithdra a chostau triniaeth cysylltiedig.

² Mae aelwyd agored i niwed yn cael ei diffinio fel aelwyd sydd â rhywun 60 oed neu drosodd, aelwyd â phlentyn/person ifanc o dan 25 oed, neu aelwyd sy'n cynnwys unigolyn ag unrhyw gyflwr sy'n cyfyngu ar ei fywyd, neu unigolyn anabl.

- Mae buddsoddi i wella tai yn ffordd gost-ffeithiol o atal afiechyd a lleihau anghydraddoldebau iechyd. Gallai arwain at lai o amser yn absennol o'r ysgol neu'r gwaith, mwy o ddefnydd o'r cartref at ddibenion astudio a hamdden, a gwell cydberthnasau rhwng aelodau'r cartref.

Deall Nodweddion Aelwydydd Incwm Isel sydd yn y Perygl Mwyaf o Fyw mewn Cartrefi Oer, Canolfan Ynni Cynaliadwy (CSE)

Yn 2015, comisiynodd Llywodraeth Cymru waith ymchwil annibynnol er mwyn helpu'r gwaith o dargedu unrhyw gynllun effeithlonrwydd ynni a thlodi tanwydd a arweinir gan alw yn y dyfodol.

Roedd y gwaith ymchwil yn ystyried pa gartrefi incwm isel sydd yn y perygl mwyaf o fyw mewn cartrefi oer ac felly'n debygol o fod â'r angen mwyaf am ymyrraeth effeithlonrwydd ynni yn y cartref.

Roedd hyn yn dylanwadu ar argymhellion y dylai'r cynllun dargedu aelwydydd ag incwm cymharol isel ac o leiaf un o'r nodweddion ychwanegol canlynol sy'n eu gwneud yn agored i niwed:

- Oedolion hŷn
- Plant (plant o dan 5 oed yn benodol)
- Pobl anabl
- Pobl â chyflyrau iechyd cyfyngus hirdymor (pobl â chlefydau anadlol neu gylchredol a phobl â chyflyrau iechyd meddwl).

Mae holl argymhellion yr adroddiad wedi'u hystyried yn llawn wrth benderfynu pa aelwydydd a ddylai gael blaenoriaeth ac wrth ddatblygu'r meini prawf cymhwysedd cysylltiedig i gyflawni hyn.

Gwerthusiad o Gynllun Effeithlonrwydd Ynni Nyth - Miller Research (UK) Ltd

Yn 2014, comisiynodd Llywodraeth Cymru werthusiad annibynnol o gynllun Nyth er mwyn asesu a oedd y cynllun wedi cyflawni ei amcanion. Roedd y gwerthusiad yn ystyried i ba raddau roedd y cynllun wedi cyrraedd aelwydydd â'r angen mwyaf, wedi sicrhau arbedion ynni ar gyfer deiliaid tai ac wedi darparu gwerth am arian. Cyhoeddwyd yr adroddiad llawn ym mis Mawrth 2015.

Mae'r canfyddiadau wedi'u defnyddio wrth ddatblygu'r cynllun newydd, gan adeiladu ar unrhyw lwyddiannau a gwella unrhyw wendidau.

Ymgynghoriad (27 Gorffennaf – 19 Hydref 2016)

Cynhaliwyd ymgynghoriadau mewnol ac allanol rhwng 27 Gorffennaf ac 19 Hydref 2016. Hefyd, cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau gweithdy i randdeiliaid yn ystod y cyfnod ymgynghori. Mae'r holl ymatebion wedi'u hystyried wrth ddatblygu cynigion terfynol. Mae crynodeb llawn o'r ymatebion ar gael yn <https://beta.llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2018-01/170110-responses-cy.pdf>.

Prosiect Cysylltu Data Tlodi Tanwydd

Rydym yn cyd-ariannu ymchwil SAIL (Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw) sy'n ystyried defnyddio data gweinyddol cysylltiedig i werthuso effeithiau ein cynlluniau effeithlonrwydd ynni a thlodi tanwydd ar ganlyniadau iechyd. Mae'r prosiect yn defnyddio cronfa ddata SAIL, sy'n dwyn ynghyd yn ddiogel yr ystod ehangaf bosibl o ddata dienw a gesglir yn arferol at ddibenion ymchwil a gwerthuso.

Aethom ati i gyhoeddi adroddiad Canfyddiadau sy'n Dod i'r Amlwg a oedd yn canolbwyntio ar ganlyniadau iechyd derbynwyr *Nyth* ym mis Hydref 2016, a'r canfyddiadau diweddaraf ym mis Ebrill 2017.

Dyma ganfyddiadau allweddol yr adroddiad diweddaraf:

- Effaith gadarnhaol arwyddocaol ar iechyd anadlol ymysg derbynwyr mesurau *Nyth* Cartref Clyd, a'r un patrwm arwyddocaol wrth ystyried asthma yn benodol.
- Mae'r data yn awgrymu bod 'effaith amddiffynnol' ar gyfer heintiau (gyda chynnydd llai yn nifer gyfartalog y presgripsiynau ar gyfer heintiau ar gyfer y rhai sy'n derbyn mesurau o'i gymharu â'r grŵp cymharu).
- Mae'r data yn awgrymu bod effaith gadarnhaol ar dderbyniadau brys i'r ysbyty ar gyfer cyflyrau cardiofasgwlaidd ac anadlol.

Mae'r canfyddiadau hyn yn cefnogi ein penderfyniad i ymestyn y meini prawf cymhwysedd ar gyfer ein cynllun *Nyth* newydd i gynnwys cartrefi incwm isel sy'n cynnwys meddiannydd sydd â chyflwr anadlol neu gylchredol.

4. Grwpiau poblogaeth allweddol y mae'r rhaglen, polisi neu'r prosiect yn effeithio arnynt.

(Gan ddefnyddio'r rhestr o **grwpiau agored i niwed a grwpiau difreintiedig**, ewch ati i asesu pa grwpiau o fewn y boblogaeth gyffredinol a fydd yn cael eu heffeithio o bosibl gan y cynnig.

Grwpiau Agored i Niwed

Amcan ein cynllun tlodi tanwydd a arweinir gan alw yw darparu lefelau cyson o gymorth ar gyfer aelwydydd sydd â'r angen mwyaf ac yn byw yn y cartrefi mwyaf aneffeithlon o ran ynni. Mae hyn yn cynnwys darparu cyngor ar arbed ynni ac arian i bob aelwyd, a phe cyn di-dâl o fesurau gwella ynni yn y cartref ar gyfer aelwydydd sydd ag angen mwyaf am gymorth (h.y. cartrefi incwm isel ac agored i niwed).

Mae cynigion ar gyfer y cynllun newydd yn debyg i gynllun presennol *Nyth Cartrefi Clyd*; fodd bynnag, mae'r meini prawf cymhwysedd arfaethedig ar gyfer mesurau gwella'r cartref wedi'u diwygio er mwyn targedu cymorth yn well ar gyfer cartrefi incwm isel sy'n agored i niwed.

Mae'r meini prawf cymhwysedd yn seiliedig yn bennaf ar ymchwil gymdeithasol a gomisiynwyd gan y Ganolfan Ynni Cynaliadwy (gweler y

ddolen yn adran 2). Roedd hyn yn ceisio nodi pa gartrefi incwm isel sydd yn y perygl mwyaf o fyw mewn cartrefi oer ac felly'n debygol o fod â'r angen mwyaf am ymyrraeth effeithlonrwydd ynni yn y cartref. Dyma nodweddion yr aelwydydd neu aelodau'r aelwydydd y nodwyd eu bod yn agored i niwed:

- pobl hŷn (65 oed a throsodd)
- plant (plant o dan 5 oed yn benodol)
- pobl anabl
- pobl â chyflyrau iechyd cyfyngus hirdymor (pobl â chlefydau anadlol neu gylchredol a phobl â chyflyrau iechyd meddwl yn benodol).

Mae'r dystiolaeth yn cefnogi'r defnydd o incwm isel ac un neu fwy o'r nodweddion agored i niwed ychwanegol hyn fel meini prawf cymhwysedd. Defnyddiwyd hyn i ddewis y grŵp targed ar gyfer y cynllun newydd.

Ar sail yr uchod, roedd ein cynigion gwreiddiol ar gyfer cymhwysedd yn cynnwys gofyniad bod rhywun dros 65 oed neu o dan 5 oed yn byw ar yr aelwyd. Fodd bynnag, roedd rhanddeiliaid yn teimlo'n gryf y byddai cyflwyno gofynion oedran yn cyfyngu ar nifer y bobl y gallai'r cynllun eu helpu, gan eithrio llawer o aelwydydd o oedran gwaith sy'n wynebu tlodi tanwydd.

Penderfynwyd cadw'r cymhwysedd presennol ar gyfer y cynllun newydd, ond ymestyn cymhwysedd i gartrefi incwm isel lle mae gan un o'r preswylwyr gyflwr iechyd anadlol neu gylchredol.

Mae'r grwpiau canlynol o'r boblogaeth yn cael eu heffeithio gan gynllun newydd Nyth:

Grwpiau cysylltiedig ag incwm

- Pobl ar incwm isel
- Economaidd anweithgar
- Di-waith/heb waith
- Pobl sy'n methu gweithio oherwydd afiechyd

Grwpiau sy'n dioddef gwahaniaethu neu anfantais gymdeithasol arall

- Pobl ag anabledau / anawsterau corfforol neu ddysgu
- Teithwyr
- Teuluoedd un rhiant
- Grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig (nodir bod plant â rhiant du neu riant o leiafrif ethnig arall mewn perygl penodol o fyw mewn cartref sy'n wynebu tlodi tanwydd).

Grwpiau daearyddol

- Pobl sy'n byw mewn ardaloedd sydd â dangosyddion economaidd a/neu iechyd gwael hysbys
- Pobl sy'n byw mewn ardaloedd ynysig/gorboblog
- Pobl sy'n methu cyrchu gwasanaethau a chyfleusterau

Sgrinio

Gan ddefnyddio'r rhestr o ffactorau sy'n dylanwadu ar iechyd a lles, ystyriwch:

- sut (p'un ai'n gadarnhaol neu'n negyddol)
- i ba raddau (effaith sylweddol/cymedrol/bach)

y mae'r grwpiau hyn o fewn y boblogaeth a'r boblogaeth gyffredinol ei hun yn gallu cael eu heffeithio gan y cynnig neu sut y gallai'r cynnig arwain at oblygiadau iddynt - a chrynhoi hynny ar gyfer pob adran yn y daflen sgrinio isod.

Gellir rhestru unrhyw gyfleoedd coll i wella'r cynnig o dan y golofn gadarnhaol (+).

Gellir rhestru unrhyw effeithiau niweidiol ar iechyd a llesiant o dan y golofn negyddol (-).

Os nad oes unrhyw effeithiau tebygol, neu eu bod yn effeithiau bach iawn, symudwch i'r adran nesaf.

Gofynnwch y cwestiwn: 'Sut y mae'r cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar y ffactorau hyn sy'n dylanwadu ar iechyd, er enghraifft, gweithgaredd corfforol neu ddeiet (yn yr adran Ffordd o Fyw)?' Neu a yw'n cael dim effaith?

Ffordd o fyw (e.e. <i>Deiet, gweithgaredd corfforol, y defnydd o alcohol, gweithgaredd rhywiol, gweithgaredd arall sy'n golygu cymryd risg</i>)		Grwpiau sy'n Agored i Niwed / Dosbarthiad
(Cadarnhaol) +	(Negyddol) -	
Potensial ar gyfer effaith gymedrol neu sylweddol Mae cyflwyno mesurau gwella ynni yn y cartref yn golygu bod eiddo yn defnyddio ynni yn fwy effeithlon, gan leihau cost biliau ynni a galluogi aelwydydd i gadw'n gynnes am gost fwy fforddiadwy. Gall biliau tanwydd uchel olygu bod gan ddeiliaid tŷ lai o arian ar gyfer bwyd, treuliau bob dydd eraill a gweithgareddau cymdeithasol. Trwy leihau biliau ynni		Y boblogaeth gyffredinol Bydd yr effaith yr un fath ar bob aelwyd, gan sicrhau effaith gadarnhaol ledled y grwpiau.

<p>aelwydydd sy'n agored i niwed, bydd ganddynt incwm ychwanegol i'w wario ar y pethau a nodir uchod, fel bwyd o ansawdd gwell. Hefyd, gall y math o ddeiet newid hefyd wrth i aelwydydd allu defnyddio mwy o nwy/trydan ar gyfer coginio.</p>		
<p>Ffactorau cymdeithasol a chymunedol eraill sy'n dylanwadu ar iechyd (e.e. <i>Ymdeimlad o berthyn, bod yn gymdogol, ynysu cymdeithasol, hunaniaeth gymunedol ac ati</i>)</p>		<p>Grwpiau sy'n Agored i Niwed / Dosbarthiad</p>
<p>(Cadarnhaol) +</p>	<p>(Negyddol) -</p>	
<p>Potensial ar gyfer effaith gymedrol</p> <p>Gall cartref oer effeithio ar berthynas pobl y tu allan i'r cartref, gan fod unigolion yn gallu bod yn llai parod i wahodd ffrindiau i'r tŷ a phoeni am y gost o fynd allan, gan eu hynysu yn gymdeithasol (Canolfan Ynni Cynaliadwy, 2014) (Iechyd Cyhoeddus Lloegr, 2015).</p> <p>Gallai'r broses o wella effeithlonrwydd ynni trwy osod mesurau gwella ynni neu wella ymwybyddiaeth trwy gyngor, leihau ynysu cymdeithasol trwy wella ymdeimlad o lesiant a lleihau pryderon / straen yn sgil poeni am dalu biliau ynni.</p> <p>Hefyd, gall rhai mesurau effeithlonrwydd ynni wella golwg eiddo, e.e. inswleiddio muriau allanol.</p>	<p>Potensial ar gyfer effaith tymor byr bach</p> <p>Gall y broses o osod mesurau effeithlonrwydd ynni amharu ar breswylwyr a gweithwyr. Fodd bynnag, dylai'r gwelliannau iechyd hirdymor sy'n deillio o gyflwyno'r mesurau fod yn drech nag unrhyw effeithiau negyddol.</p>	<p>Y boblogaeth gyffredinol</p> <p>Bydd yr effaith yr un fath ar bob aelwyd, gan sicrhau effaith gadarnhaol ledled y grwpiau.</p>
<p>Amodau byw/amgylcheddol sy'n effeithio ar iechyd (e.e. <i>Yr amgylchedd adeiledig, tai, amgylchedd dan do, diogelwch, gwaredu gwastraff, peryglon o gael anaf ac ati</i>)</p>		<p>Grwpiau sy'n Agored i Niwed / Dosbarthiad</p>

(Cadarnhaol) +	(Negyddol) +	
<p>Potensial ar gyfer effaith sylweddol Gall effeithlonrwydd ynni mewn cartrefi ac adeiladau eraill gael effaith uniongyrchol ar iechyd pobl sy'n byw neu'n gweithio ynddynt – mae llawer o glefydau'n cael eu hachosi neu eu gwaethygu gan gartrefi oer a thamp, a chartrefi â llwydni.</p> <p>Yn ôl adroddiad CSE, mae 78% o'r unigolion ychwanegol sy'n marw dros y gaeaf yn bobl dros 75 oed. Hefyd, mae plant, yn enwedig plant bach o dan bump oed, yn treulio mwy o amser na'r cyfartaledd gartref, gan gynyddu eu cysylltiad ag effeithiau iechyd niweidiol cartrefi oer.</p> <p>Mae babanod sy'n byw mewn cartrefi lle ceir tlodi tanwydd (oer a llaith) yn fwy tebygol (o 30%) o gael eu derbyn i'r ysbyty neu wasanaethau gofal sylfaenol.</p> <p>Mae buddsoddi mewn gwelliannau effeithlonrwydd ynni yn ffordd gost-effeithiol o atal afiechyd a lleihau anghydraddoldebau iechyd. Gallai arwain at lai o amser yn absennol o'r ysgol neu'r gwaith, mwy o ddefnydd o'r cartref at ddibenion astudio a hamdden, a gwell cydberthnasau rhwng aelodau'r cartref.</p>	<p>Potensial ar gyfer effaith tymor byr bach</p> <p>Gall y broses o osod mesurau effeithlonrwydd ynni amharu ar breswylwyr a gweithwyr. Fodd bynnag, dylai'r gwelliannau iechyd hirdymor sy'n deillio o gyflwyno'r mesurau fod yn drech nag unrhyw effeithiau negyddol.</p>	<p>Y Boblogaeth Gyffredinol</p> <p>Pob grŵp sy'n agored i niwed</p>

Amodau economaidd sy'n effeithio ar iechyd (e.e. <i>Diweithdra, incwm, anweithgarwch economaidd, math o gyflogaeth, amodau'r gweithle</i>)		Grwpiau sy'n Agored i Niwed / Dosbarthiad
(Cadarnhaol) +	(Negyddol) +	
<p>Potensial ar gyfer effaith gymedrol</p> <p>Mae mesurau gwella ynni yn cael eu gosod gan BBaChau lleol, sy'n fanteisiol i'r economi leol. Bydd y cynllun yn cynnal nifer o swyddi a phrentisiaethau hefyd.</p> <p>Bydd buddsoddi mewn effeithlonrwydd ynni yn creu swyddi a chyfleoedd busnes gwyrdd ar gyfer pobl Cymru.</p> <p>Bydd y cynllun yn gweithredu mewn ffordd debyg i'r cynllun Nyth presennol, sydd wedi galluogi aelwydydd i fwynhau manteision newydd neu ychwanegol, gan wneud y mwyaf o incwm.</p> <p>Mae mesurau gwella ynni yn y cartref yn golygu bod eiddo yn defnyddio ynni'n fwy effeithlon, gan leihau cost biliau ynni a chynyddu incwm yr aelwyd i'w wario yn yr economi leol.</p>		<p>Y boblogaeth gyffredinol</p> <p>Pobl ar incwm isel</p> <p>Pobl sy'n anweithgar yn economaidd</p> <p>Di-waith/heb waith</p>
Mynediad i wasanaethau a'u hansawdd (e.e. <i>Gwasanaethau meddygol, amwynderau cyhoeddus, gwasanaethau gofalu eraill, trafnidiaeth yn cynnwys parcio, addysg a hyfforddiant, technoleg gwybodaeth</i>)		Grwpiau sy'n Agored i Niwed / Dosbarthiad
(Cadarnhaol) +	(Negyddol) +	
<p>Potensial ar gyfer effaith sylweddol</p> <p>Nododd yr asesiad o dystiolaeth gonsensws cadarn yn y llenyddiaeth ymchwil fod byw mewn cartref oer yn gallu cael</p>		

<p>effeithiau niweidiol arwyddocaol a hirdymor ar iechyd, addysg ac elfennau cymdeithasol bywydau pobl.</p> <p>Y brif effaith yn yr adran yw gwella iechyd pawb sy'n byw yn y cartref, gan leihau'r angen am wasanaethau meddygol, a'r defnydd ohonynt.</p> <p>Yn ôl canfyddiadau diweddaraf Prosiect Cysylltu Data Tlodi Tanwydd, cafwyd effaith gadarnhaol glir ar iechyd pobl mewn cartrefi sy'n rhan o gynllun Nyth, ynghyd â gostyngiad yn y defnydd o'r GIG.</p> <p>Mae buddsoddi mewn gwelliannau effeithlonrwydd ynni yn ffordd gost-effeithiol o atal afiechyd a lleihau anghydraddoldebau iechyd. Gallai arwain at lai o amser yn absennol o'r ysgol neu'r gwaith, mwy o ddefnydd o'r cartref at ddibenion astudio a hamdden, a gwell cydberthnasau rhwng aelodau'r cartref.</p> <p>Yn ôl adroddiad diweddar iechyd Cyhoeddus Cymru, gallai buddsoddi mewn inswleiddio a gwresogi mewn cartrefi oer a thamp arbed bron i £35 miliwn i'r GIG yng Nghymru.</p>		
<p>Ffactorau macro-economaidd, amgylcheddol a chynaliadwyedd (e.e. <i>Polisiâu'r llywodraeth, cynnyrch domestig gros, datblygu economaidd, amrywiaeth fiolegol, yr hinsawdd</i>)</p>		<p>Grwpiau sy'n Agored i Niwed / Dosbarthiad</p>
<p>(Cadarnhaol) +</p>	<p>(Negyddol) +</p>	

<p>Potensial ar gyfer effaith gymedrol</p> <p>Buddsoddi mewn effeithlonrwydd ynni yw'r ffordd fwyaf gost-effeithiol o gyflawni ein hymrwymiaadau i leihau allyriadau carbon.</p> <p>Bydd mesurau gwella yn cael eu gosod gan grefftwy'r lleol sy'n defnyddio deunyddiau gan gyflenwyr lleol, sydd o fudd i'r economi ac i gynnyrch domestig gros.</p>		
--	--	--

Argymhellion

A yw'r effeithiau a nodwyd uchod yn ddigon i gyfiawnhau cynnal proses asesu'r effaith ar iechyd fwy cynhwysfawr?

Nac ydyn

Os nad ydynt, beth yw'r rhesymau dros beidio â chynnal asesiad?

Mae pob un o'r effeithiau a nodwyd yn gadarnhaol, ar wahân i ychydig o effeithiau negyddol bach posibl yn ymwneud ag amharu tymor byr. Nid oes unrhyw effeithiau negyddol sylweddol sydd angen eu hystyried ymhellach neu eu lliniaru.

A oes angen cymryd rhagor o gamau o ganlyniad i'r broses asesu'r effaith ar iechyd hon?

Nac oes

A oes asesiadau eraill wedi cael eu cynnal neu a fydd asesiadau eraill yn cael eu cynnal? h.y. Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb, Asesu'r Effaith Amgylcheddol. Ynteu a fydd hyn yn rhan o asesiad arall?

Oes

Os oes, amlinellwch beth yw'r asesiad(au):

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb
 Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant
 Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg
 Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd
 Sgrinio Gwledig